

PWYLLGOR DATHLU ACHUB LLANGYNDEYRN A CHWM GWENDRAETH FACH

**Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys Llangydeyrn
15fed o Dachwedd 2011 am 7.30 y.h.**

| | | |
|-------------------------------------|--|--|
| Presennol | Diana Thomas-Laidlaw John Thomas David Thomas Tyssul Evans Alan Lewis Jayne Brodrick T.J.Arwyn Richards Peter Jones | Mary Pugh Einir Griffiths Brendan Griffiths Hugh Williams Robert Thomas Gwydion Wynne Marc Jones Ann Richards |
| Ymddiheuriadau am Absenoldeb | | |

| | Gweithredu |
|--|-------------------|
| <p>MATERION YN CODI AC AGENDA.</p> <p>1. Gwnaeth John Thomas groesawi pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.</p> <p>2. <u>David Thomas a John Thomas yn bwriadu cyd lywyddu'r cyfarfodydd yn y dyfodol</u></p> <p>Derbyniwyd hyn gan bawb oedd yn bresennol.</p> <p>3. <u>Enw swyddogol y Pwyllgor</u></p> <p>Ar ol trafodaeth, cytunwyd ar yr enw canlynol :</p> <p>“Pwyllgor Dathlu Achub Llangydeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.”</p> <p>“Committee to Celebrate The Saving of Llangydeyrn and the Gwendraeth Fach Valley.”</p> <p>4. <u>Lleoliad y cyfarfodydd yn y dyfodol.</u></p> <p>Cyhoeddodd John Thomas ei fod wedi siarad a Gwen Jones a Gillian Davies (aelodau o bwyllgor Neuadd yr Eglwys Llangydeyrn), er mwyn cadarnhau'r costau i'w talu am gael defnyddio'r Neuadd. Rhaid talu £25 am ddwy awr (gwres a thrydan.)</p> <p>Awgrymwyd y dylid cynnal y cyfarfodydd yn y dyfodol yn y ddau dafarn yn y pentref, am yn ail, er mwyn osgoi'r costau. Dyma a wnaethpwyd gan y pwyllgor</p> | |

blaenorol adeg y dathliad Pum Mlynedd Ar Hugain. John Thomas heb ofyn i'r ddau dafarn eto, ond nid yw'n rhagweld y byddant yn gwrthwynebu. Cytunodd pawb ar y syniad o gynnal y cyfarfodydd yn Nhafarn Y Gof, ac yn Nhafarn y Ffermwyr am yn ail. Trwy wneud hyn byddwn yn cefnogi busnesau lleol, gan hefyd wneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r dathliadau arfaethedig.

Bwriedir ysgrifennu at Mrs. Gwen Jones, Pwyllgor Neuadd yr Eglwys er mwyn gofyn am ganiatad swyddogol i gael defnyddio'r Neuadd pan fydd cyfarfodydd mawr yn cael eu trefnu yn y dyfodol.

J.T.

D.M.T.L.

5. Penodi Trysorydd.

Dywedodd Brendan Griffiths ei fod yn barod i wneud y gwaith hwn. Gwnaeth Robert Thomas ei eilio. Dywedodd Brendan bod gan Christopher Smith ddiddordeb yn y swydd hon hefyd. Cytunodd Brendan i gysylltu gyda Christopher, ac yna adrodd yn ol i ni ar y drafodaeth.

(Er gwybodaeth, gwnaeth Brendan gysylltu rhai dyddiau'n ddiweddarach i ddweud y byddai Christopher yn ymgymryd a'r gwaith.)

6. Sefydlu is-bwyllgorau ar gyfer y canlynol

A) Cyllid/Codi arian

B) Gweithgareddau

C) Gwerthu/Marchnata Nwyddau

CH) Cyhoeddusrwydd

Cafwyd trafodaeth, lle nodwyd bod pwyntiau A a C yn gor-gyffwrdd, a bod pwyntiau B ac CH yn gor-gyffwrdd.

Gwnaeth Alan Lewis nodi y gallem wneud cais am gyllid wrth y rhaglen "Dathlu Diwylliant", sy'n cael ei arwain gan Meinir Griffiths, Menter Cwm Gwendraeth. Awgrymodd y dylem lunio "Cyfansoddiad", ac agor cyfrif banc yn gyntaf cyn gwneud y cais, ac eto dywedodd Alan Lewis y gallem gael cymorth gan y Fenter yn y maes hwn. Gofynnodd Robert Thomas os oedd help ar gael i lunio'r "Polisiau", ac eto cadarnhaodd Alan Lewis y gallai'r Fenter ein cynorthwyo. Soniodd Tyssul Evans bod yna brojectau "Match Funding" ar gael, ac y gallai'r Cyngor Cymuned helpu yn y maes hwn.

Awgrymwyd y dylid cael cefnogaeth wrth cymaint o fudiadau a phosibl pan yn gwneud y ceisiadau am gyllid, e.e. Pwyllgor y Neuadd, Merched y Wawr, Y Capeli, Yr Eglwys, ynghyd a cheisio cael cefnogaeth yr Aelod Seneddol ac Aelod y Cynulliad.

Cafwyd trafodaeth o'r math o ddathliadau y gellir eu trefnu. Roedd David Thomas yn awyddus bod y dathliadau yn cael eu cynnal dros gyfnod hirach nag wythnos. Awgrymwyd nifer o wahanol syniadau, e.e. Cyngerdd Mawr ar y Nos Sadwrn 19eg o Hydref 2013, cyn y dyddiad mawr sef dydd Llun 21ain 2013. Gellir cynnal y cyngerdd mewn Marquee. Gellir cael Dafydd Iwan, Gwenda a Geinor ac ati i berfformio, yn ogystal a bandiau fyddai'n apelio at y genhedlaeth ifancaf. Soniodd Alan Lewis eto bod grantiau ar gael i dalu am "Noswaith Allan", ar wahan i'r cynllun "Dathlu Diwylliant".

Yn ogystal soniwyd am gynnal Cwrdd Diolchgarwch/Noson o Fawl, cynnal gweithgaredd "Soffa Siarad" fel yr awgrymodd Deris o'r Fenter. Gallai Hugh Williams, ac Arwyn Richards gynnal noswaith o siarad i son am yr hanes, a gallent

fynd o amgylch yr ysgolion lleol i siarad a'r disgyblion am y digwyddiadau. Cadarnhaodd Mrs. Brodrick y byddai plant Ysgol y Fro yn cyfrannu at y dathliadau - cyfansoddi pennillion, creu drama. Awgwmwyd y gallent hefyd efallai ail berfformio'r ddrama am yr ymgyrch i foddi Llangyndebyrn a berfformiwyd ym Mhontyberem. Gallai holl blant yr ardal (er mwyn cynnwys y rhai nad ydynt yn ddisgyblion Ysgol y Fro) greu D.V.D. yn holi Arwyn Richards, Hugh Williams etc. am eu hatgofion, ac yna gellid dangos hwn yn Neuadd yr Eglwys. Gallent hefyd siarad ar raglenni fel "Wedi Tri" a "Wedi Saith." Awgrymodd Tyssul Evans y gellid cysylltu a Meinir Jones o'r rhaglen "Ffermio" er mwyn cael mwy o gyhoeddusrwydd.

Pwysig hefyd fyddai cynnal arddangosfa yn Neuadd yr Eglwys yn rhoi hanes y digwyddiadau. Gellid arddangos peth o'r ddogfennaeth a'r arteffactau gwreiddiol. Dywedodd Tyssul Evans ei fod wedi cysylltu a'r Archifdy Cenedlaethol er mwyn cael copiau o rai dogfennau. Trosglwyddodd y pecyn hyn i John Thomas.

Awgrymodd hefyd y gellir cysylltu a Chyngor Abertawe. Dywedodd Ann Richards y gellid cael lluniau wrth Donald Williams.

Dylid argraffu calendr ar gyfer blwyddyn y dathlu sef 2013, a dechrau ei werthu yn nhymor yr Hydref 2012.

Awgrymodd Alan Lewis y gellid sefydlu "Touch Screen Interactive Information Boards" yn y pentref i roi gwybodaeth am yr hanes (yn cael ei redeg ar " banel solar"). Hefyd dylid sefydlu gwefan i roi'r hanes.

Gwnaeth Gwydion Wynne gadarnhau ei fod yn barod i sefydlu gwefan ddwy-ieithog, gan hefyd roi amlinelliad manwl o'r math o logos y gallai drefnu ar gyfer y dathliad (trwy gyd-weithwraig iddo yn y Drindod).

Cytunwyd i'r bobl canlynol i fod a chyfrifoldeb am y meysydd yma :

Cyhoeddusrwydd : Tyssul Evans a Gwidion Wynne.

T.E. a G.W.

Gwerthu/Marchnata Nwyddau : Rob Thomas, Brendan Griffiths a John Thomas.

R.T., B.G. a J.T.

Trefnu Gweithgareddau a chodi arian yn lleol : Eimir Griffiths, Ann Richards , Mary Pugh, Julie Harries, Sian Jones a Linda Thomas.

E.G., A.R., M.P., J.H. a S.J.

Is-bwyllgor Cyllid/ gwneud cais am Grantiau - aros i benodi Trysorydd, ac yna cyd weithio gyda'r pwyllgor llawn.

Bydd y grwpiau uchod yn adrodd yn ol ar eu syniadau ac ar unrhyw ddatblygiadau yn y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ym Mis Ionawr 2012

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar Nos Fawrth 24ain o Ionawr 2012 am 7.30 y.h. yn nhafarn Y Ffermwyr , Llangyndebyrn.

8. Bydd copi Saesneg o'r munudau hyn ar gael yn y cyfarfod nesaf i'r rhai fydd yn awyddus i'w derbyn.

Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes y Pwyllgor Dathlu Achub Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.)

| | |
|--|--|
| | |
| | |